



De Cymru  
Comislynydd yr Heddlu a Throseddau  
Police and Crime Commissioner  
South Wales

Comislynydd yr Heddlu a Throseddau  
Police and Crime Commissioner



## EICH HEDDLU EICH ARIAN

### Cyflawni Mwy Gyda'n Gilydd tuag at Dde Cymru Mwy Diogel

De Cymru yw un o'r ardaloedd mwyaf diogel i fyw a gweithio ynddi yn y DU ond mae'r pwysau dwys ar blismona a gwasanaethau eraill yn golygu bod angen ystyried yn ofalus iawn pa lefel o dreth gyngor sydd ei hangen er mwyn cynorthwyo ein cymunedau a mynd i'r afael â bygythiadau trosedd sy'n dod i'r amlwg.

Mae Cynllun yr Heddlu a Throseddau 2023-27 y Comisiynydd yn ymwneud â diogelu ein pobl, yn enwedig pobl agored i niwed, a gweithio hyd yn oed yn agosach gyda chymunedau lleol. Cafodd y cynllun ei lunio mewn cydweithrediad agos â'r Prif Gwnstabl ac mae'n nodi ein gweledigaeth ar gyfer plismona yn Ne Cymru. Mae'n parhau i roi pwyslais clir ar ymyrryd yn gynnar a chymryd camau prydlon a chadarnhaol. Mae'r Cynllun yn nodi sut y byddwn yn delio â throsedd a niwed, fel trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, troseddau wedi'u galluogi gan y rhyngwyd, camfanteisio'n rhywiol ar blant a chamfanteisio ar y rheini sydd fwyaf agored i niwed.

Rydym yn croesawu ymrwymiad cenedlaethol y Llywodraeth i recriwtio Swyddogion yr Heddlu newydd, ond bydd yn golygu y bydd cyfran uchel o'r gweithlu bellach yn newydd i'r gwasanaeth, a ni wna unrhyw beth i wneud iawn am y traean a mwy a gollwyd o Grant yr Heddlu o'r Swyddfa Gartref ers 2012.

Heblaw am y cyllid ar gyfer swyddogion newydd, roedd Grant yr Heddlu ar gyfer 2024/25 yn setliad arian gwastad arall, heb roi fawr ddim ystyriaeth i chwyddiant na chostau eraill. Mae bwlc cyllido o £16.6 miliwn yng nghyllideb Heddlu De Cymru ar ôl cael £9 miliwn o gynllun eisoes wedi'u rhoi yn y gyllideb. Roeddem yn arfer cael £3 miliwn y flwyddyn fel grant tuag at brosiectau cyfalaf, ond mae hynny wedi dirwyn i ben, a rhaid cyllido'r holl wariant cyfalaf gan ddefnyddio cyllid refeniw mewnol yn gyfan gwbl. Rydym hefyd dan anfantais o beidio â chael £1 miliwn yn flynyddol ar gyfer costau hyfforddiant, o'i gymharu â Heddluoedd yn Lloegr.

Mae'n rhaid i'r praesept gwmpasu'r bylchau hyn, ar ben y £72 miliwn o arbedion cyfunol (toriadau) y llwyddwyd i'w cyflawni ers 2010. Y canlyniad, o ystyried yr holl heriau hyn, yw cynnydd ym Mhraesept yr Heddlu o £28.20 y flwyddyn (£2.35 y mis) ar gyfer eiddo Band D (mae ein praesept bellach wedi cyrraedd y cyfartaledd yng Nghymru bellach), ond bydd y rhan fwyaf o bobl yn talu llawer llai na hyn. Mae Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau De Cymru wedi pennu'r dreth gyngor ar £352.67 ar gyfer eiddo Band D, gan gyfrannu £180.3 miliwn at y gyllideb o £387m ar gyfer gwasanaeth heddlu 24 awr, saith diwrnod yr wythnos.

Er gwaethaf yr heriau ariannol, rydym wedi gwella perfformiad yn gyson ac wedi lleihau agweddau ar droseddau a niwed, gan ddarparu bron £1biliwn o fudd cymdeithasol ac economaidd i bobl De Cymru dros y degawd diwethaf. Mae ein perfformiad wedi cael ei gydnabod gan Arolygiaeth Cwnstablaeth Ei Fawrhydi hefyd:

"De Cymru sydd fwyaf gweledol o blith y 43 o gwnstablaethau ac mae yn y safle cyntaf o ran cyflawni'r canlyniadau cadarnhaol gorau yn y wlad ar gyfer trais gydag anaf ac ar weithredu yn erbyn troseddau rhywiol."

Mae'r holl wybodaeth am y Cynllun a'n Perfformiad ar gael ar ein gwefan: [www.southwalescommissioner.org.uk](http://www.southwalescommissioner.org.uk)

## YOUR POLICE YOUR MONEY

### Achieving More Together Towards a Safer South Wales

South Wales is one of the safest areas to live and work in the UK but the intense pressure on policing and other services makes it necessary to give very careful consideration to the level of council tax needed to support our communities and address emerging crime threats.

The Commissioner's Police and Crime Plan 2023-27 is about protecting our people, particularly the vulnerable, and working ever more closely with local communities. The plan was produced in close co-operation with the Chief Constable and sets out our vision for policing in South Wales. It continues to provide a clear emphasis on prevention, early intervention and prompt, positive action. The Plan sets out how we will deal with crime and harm including violence against women, domestic violence and abuse and sexual violence, internet enabled crime, child sexual exploitation and the exploitation of those who are most vulnerable.

The new Police Officers provided through the Government's national commitment are welcomed but it means that a high proportion of the workforce are new in service, and it does nothing to address the loss of over a third of the Police Grant from the Home Office since 2012.

Apart from funds for the new officers, the Police Grant for 2024/25 was another flat cash settlement with minimum allowance for inflation or other cost pressures. There is a funding gap of £16.6m in South Wales Police's budget after £9m of savings already built into the budget. We used to receive £3m a year as a grant towards capital projects but that has ended, and all capital expenditure has to be financed entirely by our own revenue funds. We are also disadvantaged to the tune of £1m annually with respect to training costs, compared to Forces in England.

The precept has to cover these gaps, on top of the £72m recurring savings (cuts) we have delivered since 2010. Given all these challenges the result is an increase in the Police Precept of £28.20 a year (£2.35 a month) for band D properties (our precept is now at the Welsh average), while most people will pay much less than this. The Police and Crime Commissioner for South Wales has set the council tax at £352.67 for a Band D property, contributing £180.3m towards the £387m budget for a 24-hour, seven-days-a-week police service.

Despite the financial challenges, we have consistently improved performance and reduced aspects of crime and harm, delivering almost £1billion of social and economic benefit to the people of South Wales over the past decade. Performance has also been recognised by HM Inspectorate of Constabulary:

"South Wales has the best visibility across 43 constabularies, whilst it is ranked 1<sup>st</sup> in the country for positive outcome rates for violence with injury and 1<sup>st</sup> for taking action on sexual offences".

Full details of the Plan and Performance can be found on our website: [www.southwalescommissioner.org.uk](http://www.southwalescommissioner.org.uk)



De Cymru  
Comislynydd yr Heddlu a Throseddau  
Police and Crime Commissioner  
South Wales



**BETH Y BYDDWCH YN EI DALU BOB BLWYDDYN:**

**WHAT YOU WILL PAY PER YEAR:**

<b>Band A:</b> £235.11	<b>Band C:</b> £313.48	<b>Band E:</b> £431.04	<b>Band G:</b> £587.78	<b>Band I:</b> £822.90
<b>Band B:</b> £274.30	<b>Band D:</b> £352.67	<b>Band F:</b> £509.41	<b>Band H:</b> £705.34	

<b>CYLLIDEB REFENIW</b>	<b>2023-24 £000</b>	<b>2024-25 £000</b>	<b>REVENUE BUDGET</b>
Cyfanswm y Gwariant Gros	433,800	481,664	Total Gross Expenditure
Incwm	-17,963	-22,989	Income
Grantiau Eraill	-57,138	-71,713	Other Grants
Defnyddio Cronfeydd	0	0	Use of Reserves
<b>Gofyniad y Gyllideb</b>	<b>358,699</b>	<b>386,962</b>	<b>Budget Requirement</b>
Grant yr Heddlu (Swyddfa Gartref)	-132,370	-144,068	Police Grant (Home Office)
Grant Cymorth Refeniw (Llywodraeth Cymru)	-62,575	-62,501	Revenue Support Grant (Welsh Government)
Cyfraddau Annomestig (Llywodraeth Cymru)	0	0	Non-Domestic Rates (Welsh Government)
<b>Praesept y Dreth Gyngor</b>	<b>-163,754</b>	<b>-180,393</b>	<b>Council Tax Precept</b>
<b>Y Dreth Gyngor ar Eiddo Band D</b>	<b>£324.47</b>	<b>£352.67</b>	<b>Council Tax Band D property</b>
<b>Asesiad Cyfanswm Gwariant Sefydlog gan y Llywodraeth ar gyfer y Corff Plismona Lleol</b>	<b>252,804</b>	<b>264,840</b>	<b>Total Standing Spending Assessment by Government for the Local Policing Body</b>

Cyllideb y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2024-25 yw £34.9m. Caiff hyn ei ariannu'n bennaf drwy gyfraniad refeniw, cronfeydd cyfalaf wrth gefn a benthycia mewnol.

The Capital Programme budget for 2024-25 is £34.9m. This will be mainly funded through revenue contribution, capital reserves and internal borrowing.

**Cysylltu â'r Comisiynydd**

Y Comisiynydd sy'n gyfrifol am gynrychioli'r gymuned a gweithio gyda'r Prif Gwnstabl i ddarparu gwasanaeth heddlu effeithiol yn Ne Cymru.

Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd mewn sawl ffordd:

Tŷ Morgannwg, Pencadlys yr Heddlu, Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 3SU

Ffôn: 01656 869366

E-bost: commissioner@south-wales.pnn.police.uk

Gwefan: www.southwalescommissioner.wales Twitter: @commissionersw

**Cysylltu â Heddlu De Cymru**

Mewn argyfwng, ffoniwch 999 bob amser. Os nad yw'n argyfwng, ffoniwch 101. Gall pobl â nam ar eu clyw neu nam iaith gysylltu â ni drwy ein system minicom ar 01656 656980.

Pencadlys Heddlu De Cymru, Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 3SU E-bost:headquarters@south-wales.pnn.police.uk

Gwefan: www.south-wales.police.uk

Twitter: @HeddluDeCymru

**Unrhyw gwestiynau?**

Os bydd gennych unrhyw gwestiynau ariannol ynglŷn â'r wybodaeth ar y daflen hon, ffoniwch 01656 869299.

**Contact the Commissioner**

The Commissioner is responsible for representing the community, and working with the Chief Constable to deliver an effective police service in South Wales.

You can contact the Commissioner in a number of ways:

Tŷ Morgannwg, Police Headquarters, Bridgend, CF31 3SU

Phone: 01656 869366

Email: commissioner@south-wales.pnn.police.uk

Website: www.southwalescommissioner.wales Twitter: @commissionersw

**Contact South Wales Police**

In an emergency, always call 999. If it is not an emergency, please dial 101. Those with hearing or speech impairment can contact us via our minicom system on 01656 656980.

South Wales Police Headquarters, Bridgend, CF31 3SU

Email: headquarters@south-wales.pnn.police.uk

Website: www.south-wales.police.uk

Twitter: @swpolice

**Any questions?**

If you have any financial questions about the information in this leaflet, please contact 01656 869299.